TPAS Cymru
Tŷ Trafnidiaeth,
1 Heol y Gadeirlan
Caerdydd,
CF11 9SD

12 Chwefror 2025

**I Holl Landlordiaid Cymdeithasol Cymru,**

**Testun: Galwad am Dryloywder – Datgeliad Gwirfoddol Perygl Llifogydd**

Annwyl Brif Weithredwyr ac Arweinwyr Awdurdodau Lleol,

Rwy'n ysgrifennu ar ran TPAS Cymru, sefydliad cenedlaethol ymgysylltu â thenantiaid a llais tenantiaid Cymru. Rydym eisiau tynnu sylw at bryder brys a godwyd gan denantiaid yn dilyn y llifogydd dinistriol a wynebwyd gan gymunedau yng Nghymru ddiwedd 2024 a dechrau 2025.

Mae llawer o denantiaid wedi mynegi pryderon difrifol am y diffyg tryloywder ynghylch hanes llifogydd yr eiddo y maent yn symud iddynt. Gwelodd un tenant, a symudodd yn gynnar yn 2024, ei gartref dan ddŵr yn ddifrifol yn ystod Storm Bert. Yn anymwybodol o hanes llifogydd yr eiddo, nid oeddent yn barod ar gyfer y digwyddiad, gan eu gadael heb amddiffyniad digonol ar gyfer eu heiddo na dealltwriaeth o bwysigrwydd cynyddol sicrhau yswiriant cynnwys. Roedd y profiad hwn yn drawmatig iawn, gan arwain y tenant i deimlo'n anniogel yn eu cartref.

Mae tai cymdeithasol yn bodoli i ddarparu cartrefi diogel a sefydlog, yn enwedig ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas. Mae'r arfer presennol o atal gwybodaeth am berygl llifogydd yn tanseilio'r egwyddor hon. Mae tryloywder yn hanfodol i feithrin ymddiriedaeth rhwng landlordiaid a thenantiaid, ac mae peidio â datgelu perygl llifogydd yn gwrth-ddweud yr ymrwymiad hwn.

Rydym yn cydnabod na allwn atal llifogydd, ond fel sector, gallwn fod yn fwy tryloyw. Yn union fel y datgelir gwybodaeth am berygl llifogydd wrth brynu eiddo, mae tenantiaid yn haeddu'r un hawl i wneud penderfyniadau gwybodus am eu cartrefi.

Cawn ein calonogi gan Trivallis, un o landlordiaid cymdeithasol mwyaf De Cymru, sydd eisoes wedi ymrwymo i ddatgelu hanes llifogydd eiddo yn wirfoddol i denantiaid newydd. Mae hwn yn ddull blaengar o ymgysylltu â thenantiaid, ac rydym yn annog yn gryf yr holl landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru i fabwysiadu polisi tebyg.

**Rydym yn galw arnoch i adolygu eich arferion presennol yn wirfoddol a diwygio polisïau i gynnwys datgelu unrhyw ddigwyddiadau llifogydd yn ystod y deng mlynedd diwethaf**. Bydd y cam syml ond hollbwysig hwn yn rhoi'r wybodaeth i denantiaid i ddiogelu eu teuluoedd, eu heiddo, a'u llesiant yng nghanol patrymau tywydd cynyddol anrhagweladwy.

Yn ddiweddar, buom yn trafod y mater hwn ochr yn ochr â Trivallis ar BBC Radio Wales, gan atgyfnerthu'r angen am fwy o dryloywder. [Gallwch wrando ar y cyfweliad a gweld ein datganiad yma.]

Byddem yn gofyn a allech ymateb gan nodi pa gamau yr ydych yn bwriadu eu cymryd. Neu, os ydych yn anghytuno â'r llythyr hwn, byddem wrth ein bodd yn trafod eich barn gyda chi.

Diolch i chi am eich amser ac ystyriaeth.

**Yn gywir,**
TPAS Cymru